# EICH DATA, EICH HAWLIAU

Credwch mewn plant
Barnardo's
Cymru

Gwybodaeth am sut mae Barnardo's yn prosesu eich data

Mae Barnardo's yn parchu eich preifatrwydd ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol, ac i fod yn dryloyw ynglŷn â sut yr ydym yn defnyddio eich data. Mae'r daflen hon yn rhan o'n Hysbysiad Preifatrwydd, ac mae'n esbonio sut yr ydym yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol a roddir gennych chi neu a roddir i ni gan drydydd parti. Mae'r fersiwn llawn ar ein gwefan yn **www.barnardos.org.uk**.

Mae'r daflen hon yn esbonio pa ddata mae

(Enw'r gwasanaeth)

yn eu cadw amdanoch chi a/neu eich teulu, beth mae Barnardo's yn ei wneud â'r data hyn, a beth yw eich hawliau yn hyn o beth.

## Y data mae Barnardo's yn eu cofnodi amdanoch chi

Mae Barnardo's yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch chi a all gynnwys eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ff n, enw ysgol neu fudiad, cyfeiriad, oed, lleoliad, rhyw, rhywedd, crefydd, iaith, ethnigrwydd, hunaniaeth rywiol ac a oes gennych chi anabledd. Byddwn hefyd yn cofnodi gwybodaeth am eich anghenion a'r gwasanaeth a ddarperir i chi, gan gynnwys asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau a'ch dewisiadau cyswllt a chaniatâd.

Hefyd, mae

(Enw'r gwasanaeth)

yn cofnodi'r wybodaeth ganlynol

(Rhestrwch y wybodaeth ffeithiol rydych chi'n ei chofnodi fel presenoldeb mewn grwpiau, data iechyd, data addysg, data lleoliad ac unrhyw ddata ffeithiol eraill a gofnodir gan y gwasanaeth. Dydy data ddim yn golygu dogfennaeth yn unig; os yw'r gwasanaeth yn cymryd ffotograffau, yn defnyddio CCTV neu fideo ar gyfer monitro sain, rhaid i chi gynnwys hwn yn yr adran hon gan esbonio at ba ddibenion rydych yn defnyddio'r data.)

# EICH DATA, EICH HAWLIAU

Rydym yn cofnodi eich data er mwyn gallu gwneud yn siŵr bod ein gwasanaeth yn bodloni eich anghenion.

(Esboniwch ddiben cofnodi'r data hyn, fel cadw cofnod o'r gwaith sy'n cael ei wneud, cynllunio ac adolygu, ac unrhyw beth arall rydych chi'n defnyddio'r data ar ei gyfer, e.e. adrodd i gomisiynwyr, bodloni gofynion rheoleiddwyr, asesu addasrwydd gofalwyr, ymchwil ac ati.)

Os bydd Barnardo's yn defnyddio CCTV i gadw plant, pobl ifanc a staff yn ddiogel, byddwn yn cydymffurfio â Chod Ymarfer CCTV Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Beth yw ffynhonnell y data rydym yn eu cofnodi amdanoch chi?

Disgrifiwch ffynhonnell y data rydych yn eu cofnodi, o ble mae'r atgyfeiriad a'r data eraill wedi dod, e.e. y defnyddiwr gwasanaeth ei hun, aelodau o'r teulu, yr ysgol, gweithiwr cymdeithasol, canolwyr, y llys ac ati, arsylwadau gan staff. Nodwch a yw'r data'n cael eu darparu'n electronig neu drwy ddull arall.

## Rhesymau Barnardo's dros gadw cofnod o'ch data

Ymysg ein rhesymau dros gadw cofnod o'ch data mae;

- ein helpu i benderfynu ar y ffordd orau o'ch helpu;
- cofnodi sut rydym wedi gweithio gyda chi;
- asesu pa mor llwyddiannus yr oeddem o ran eich helpu ac adrodd ar hyn i'r sefydliadau sy'n ariannu ein gwaith;
- bodloni gofynion perthnasol y gyfraith neu gyrff rheoleiddio.

Yn gyfreithiol mai rhaid bod gennym reswm cyfreithiol i gadw eich data a'u prosesu. Pan fydd Barnardo's yn rhoi gwasanaeth i chi byddwn yn prosesu eich data.

O dan fuddiant dilys neu fuddiant cyhoeddus. Ac os oes angen (a lle mae'n briodol) byddwn yn gofyn am ganiatâd i brosesi eich data. Lle ein bod yn dibynnu ar ganiatâd i brosesi eich data, bydd gennych hawl i dynnu eich caniataid yn ôl. Rydym yn gwneud hyn oherwydd na allwn ddarparu gwasanaeth i chi heb ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol.

# EICH DATA, EICH HAWLIAU

## Gyda phwy allai Barnardo's rannu eich data?

Er mwyn darparu gwasanaeth i chi, caiff Barnardo's rannu eich data â'r bobl ganlynol, a allai weld eich cofnod;

- Staff Barnardo's sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaeth i chi, a'u rheolwyr,
- Staff ymchwil Barnardo's er mwyn mesur y gwahaniaeth rydym yn ei wneud, a gwella ein gwasanaethau i blant,
- Arolygwyr yn Barnardo's ei hun a rheoleiddwyr allanol a allai edrych ar eich cofnod i wneud yn siŵr ein bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd, ac yn bodloni ein gofynion cyfreithiol,
- Cynrychiolwyr y comisiynydd (fel awdurdod lleol neu awdurdod iechyd) os yw Barnardo's yn darparu gwasanaeth ar ran sefydliad arall. Byddant yn gwneud hyn er mwyn eu sicrhau eu hunain – a chithau – bod y gwaith yn mynd yn ei flaen fel y dylai.

• Rhestrwch y trydydd partïon rydych chi'n rhannu data â nhw'n rheolaidd, e.e. data monitro â chomisiynwyr, asiantaethau partner i gyd-drefnu gwasanaethau, cyrff rheoleiddio sy'n cynnal arolygon ac ati, ac awdurdodau lleol ar gyfer dod o hyd i drefniant maethu neu fabwysiadu.

- Efallai y bydd yn rhaid i ni rannu eich data ag asiantaethau eraill am resymau cyfreithiol, gorchymyn llys er enghraifft, neu â sefydliadau eraill os ydym yn credu eich bod mewn perygl o niwed neu y gallech niweidio rhywun arall.
- Efallai y bydd adegau pan fyddwn yn gofyn am eich cydsyniad i ddefnyddio eich data, er enghraifft; i'n helpu i hysbysu'r cyhoedd am ein gwaith neu fel rhan o ymchwil academaidd. Os mai dyna fydd yr achos, byddwn yn egluro i chi at ba ddiben yn union fydd eich data'n cael eu defnyddio. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg a lle bo'n bosibl, bydd unrhyw ran o'ch data a ddefnyddiwyd at ddibenion cyhoeddusrwydd yn cael ei dileu.

• Gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y GIG yn unig. Os yw eich gwasanaeth yn cael ei ariannu gan y GIG, mae angen i chi gynnwys y datganiad canlynol. Cawn rannu eich data â'r GIG at ddibenion dylanwadu ar bolisi iechyd, a monitro a gwella gofal. I gael mwy o wybodaeth, neu i optio allan, ewch i nhs.uk/your-nhs-data-matters.

- Os ydym yn dymuno rhannu eich data ag unrhyw un nad yw ar y rhestr hon, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac, oni bai fod gennym sail gyfreithiol dros rannu'r data, byddwn yn gofyn am eich caniatâd.

## Pwy sy'n gyfreithiol gyfrifol am eich data?

Barnardo's yw'r Rheolydd Data, ac mae'n gyfrifol am eich data.

NEU

(Enw'r comisiynydd) yw'r Rheolydd Data, ac mae'n gyfrifol am eich data.

NEU

Mae Barnardo's a (enw'r comisiynydd) yn Rheolyddion Data ar y Cyd ac felly mae'r ddau sefydliad yn gyfrifol am eich data.
Dewiswch y datganiad sy'n berthnasol i'ch gwasanaeth a dileu'r ddau ddatganiad arall.

# EICH DATA,
# EICH HAWLIAU

## Beth fydd yn digwydd i'ch data pan fydd Barnardo's wedi rhoi'r gorau i weithio gyda chi?

Bydd Barnardo's yn cadw eich data am gyfnod penodedig ar ôl i ni orffen gweithio gyda chi, cyfnod a fydd yn dibynnu ar natur y gwasanaeth a'n dyletswyddau cyfreithiol.

Os bydd Barnardo's yn cadw'r data, nodwch y bydd y data'n cael eu cadw'n ddiogel gan Barnardo's nes bydd y dyddiad cadw wedi'i gyrraedd, wedyn cânt eu dileu neu eu dinistrio. Nodwch y cyfnodau cadw sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaeth fel rheol. Os yw'r gwasanaeth yn cofnodi data y bydd yn cael eu harchifo gan Creu Cysylltiadau, esboniwch hyn a'u cynghori i gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data os ydynt am gael mynediad i'w data chwe mlynedd neu fwy ar ôl defnyddio gwasanaeth ddiwethaf.

Os yw'r comisiynydd yn cadw'r data, esboniwch fod y contract yn mynnu bod y data'n cael eu dychwelyd i'r comisiynydd neu eu pasio i ddarparwr arall ar ddiwedd y contract. Os yw'r comisiynydd yn cadw'r data neu eu bod yn cael eu pasio i ddarparwr arall, cynghorwch nhw i gysylltu â'r comisiynydd os ydynt am gael mynediad i'w data ac nad ydym yn darparu'r gwasanaeth mwyach.

Os yw'r gwasanaeth yn cadw data y tu allan i'r cyfnodau cadw ar gyfer data a gedwir yng nghofnodion defnyddwyr gwasanaethau, fel ffotograffau, CCTV, fideo neu recordiadau sain, esboniwch am ba mor hir y byddant yn cael eu cadw.

Os bydd Barnardo's yn defnyddio CCTV i gadw plant, pobl ifanc a staff yn ddiogel, byddwn yn cydymffurfio â Chod Ymarfer CCTV Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Eich hawl i gael copi o'ch data (Cais Gwrthrych am Wybodaeth)

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r data sydd gan Barnardo's amdanoch chi. Nid oes rhaid i chi dalu am hwn. Gofynnwch i'ch gweithiwr neu wneud cais ar lafar neu'n ysgrifenedig i:

(Os mai Barnardo's yw'r rheolydd, ychwanegwch enw'r rheolwr gwasanaeth a chyfeirio at y manylion cyswllt isod. Os mai'r awdurdodau lleol neu gorff arall yw'r rheolydd, nodwch y manylion cyswllt).

Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data hefyd. Mae ei fanylion isod. Mae ffurflen ar gael os ydych yn dymuno ei defnyddio; gall eich gweithiwr roi copi i chi. Mae ar gael ar wefan Barnardo's hefyd: **www.barnardos.org.uk**

Byddwn yn ymdrechu i roi copi o'ch data i chi cyn pen mis. Os byddwn yn cymryd mwy na mis am ba reswm bynnag, byddwn yn esbonio ein rhesymau am yr oedi i chi. Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â chynnwys eich cofnod, dylech gysylltu â rheolwr y gwasanaeth sy'n gweithio gyda chi neu â'r Swyddog Diogelu Data; mae'r manylion cyswllt isod. Byddwn yn cywiro unrhyw gamgymeriadau ffeithiol, fel eich dyddiad geni neu eich ethnigrwydd. Fel rheol, ni fyddwn yn newid unrhyw gofnod o weithredoedd a digwyddiadau, ond bydd eich safbwyntiau ar y cynnwys yn cael eu hychwanegu at y cofnod.

# EICH DATA, EICH HAWLIAU

## Cysylltu â Ni

I gael rhagor o wybodaeth am sut caiff eich data ei drin, i gael copi o'ch data neu i gwyno am y ffordd mae Barnardo's yn trin eich data, cysylltwch â:

Ychwanegwch enw, cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt y gwasanaeth, a manylion cyswllt y comisiynydd os mai'r comisiynydd yw'r rheolydd data neu'r rheolydd ar y cyd.

Neu

Swyddog Diogelu Data yn:

**Barnardo's Head Office**

**Tanners Lane, Barkingside,**

**Ilford, Essex IG6 1QG**

**020 8550 8822**

**dpo@barnardos.org.uk**

Os ydych chi'n dymuno cwyno neu gael cyngor gan awdurdod goruchwylio dylech gysylltu â'r:
Comisiynydd Gwybodaeth

**Wycliffe House**

**Water Lane**

**Wilmslow**

**Cheshire**

**SK9 5AF**

**01625 545 745**

**ico.org.uk**

Mae Polisi Preifatrwydd llawn Barnardo's ar y wefan: **www.barnardos.org.uk**

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru